



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Gweithgareddau
Mathemateg
i'r Teulu
Blwyddyn 3



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk
familymathstoolkit.org.uk

 **National
Numeracy**
Getting on with numbers



Pecyn Mathemateg Teulu

1

2

3

4



Rhagarweiniad

Nod yr adnodd teuluol hwn, sydd wedi'i brofi i fod yn gwella hyder plant a rhieni mewn mathemateg, yw hyrwyddo mwynhad o fathemateg drwy drafod a gweithio gyda'n gilydd ar fathemateg bob dydd.

Mae'r pecyn hwn gan National Numeracy yn cynnwys gweithgareddau byr, hwyliog 'bywyd go iawn' i deuluoedd eu gwneud â'u plant, gyda ffocws cryf ar ddatrys problemau a rhesymu.

Mae'n cynnwys 36 o weithgareddau, wedi eu trefnu i fynd yn raddol anoddach – ond gellir eu dewis i gyd-fynd â'r maes cwricwlwm y mae eich plant yn gweithio arno.

Nid yw'r taflenni gweithgaredd unigol yn dangos grŵp blwyddyn nac oed, dim ond codau lliw fel y gallwch ddweud y gwahaniaeth. Dylid nodi bod y lefel yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyfartalog ar gyfer y grŵp blwyddyn – gallai'r plant fod yn gweithio ar lefel is neu uwch, felly defnyddiwch weithgareddau o grwpiau blwyddyn eraill os oes angen.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Trosolwg yn awgrymu sut y gallwch rannu'r gweithgareddau yn ôl tymor ysgol a phwnc rhifedd.
- 36 o weithgareddau, yn y drefn a roddir yn y trosolwg.
- 3 taflen atebion, un i bob tymor (cofiwch fod llawer o'r gweithgareddau wedi eu dylunio i fod yn ben-agored felly rhoddir atebion ond i weithgareddau sy'n gofyn am atebion)

Ar gyfer ysgolion

Argymhellwn y dull canlynol i ysgolion sy'n defnyddio'r gweithgareddau:

- Argymhellwn y dull canlynol i ysgolion sy'n defnyddio'r gweithgareddau:
- Dull dosbarth cyfan neu hyd yn oed ddull ysgol gyfan.
- Os yw'r plant yn gweithio'n uwch neu'n is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed, dewiswch weithgaredd o grŵp blwyddyn arall.
- Cynnal gweithdy i fodelu trafodaethau'r gweithgareddau i rieni llai hyderus.
- Pwysleisio y gall unrhyw aelod o'r teulu weithio gyda'r plentyn ar y gweithgaredd.
- Os nad oes oedolion yn helpu allan yn y cartref, awgrymwch ddod o hyd i ffrind ysgol hŷn i helpu mewn clwb ar ôl ysgol neu gyn-ysgol.
- Nid oes raid i'r rhiant / gofalwr fod ag unrhyw wybodaeth arbennig am fathemateg neu offer ysgol.
- Annog y plant i fod yn greadigol: tynnu lluniau ffotograff neu ddarlunio, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau.
- Annog yr oedolyn a'r plentyn i ddefnyddio'r blwch sylwadau i fyfyrion a'ch helpu chi i ddeall beth y maen nhw'n ei feddwl o bob gweithgaredd.
- Arddangos gweithgareddau a gwblhawyd fel bo'r plant a'r teuluoedd yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd nad un ffordd yn unig sydd o ddatrys problem ond sawl ffordd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669



Pecyn Mathemateg Teulu

1

2

3

4



Ar gyfer rhieni a gofalmwyr

Sut bynnag y teimlwch am fathemateg, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i sut y mae plant yn dysgu rhifedd.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos bod siarad am fathemateg pob dydd yn magu hyder plant mewn mathemateg. Dyma rai cwestiynau y gallwch ofyn i'ch gilydd wrth wneud y gweithgareddau:

- Beth sydd angen ei wneud?
- Pa wybodaeth sydd gennym ni? Beth sydd angen ei ddarganfod?
- Fyddai offer yn helpu?
- Beth sylwch chi arno pan...?
- Beth am ddyfalu'r ateb i weld ydy o'n iawn?
- Beth allwn ei wneud os awn yn styc?
- Os byddwn yn gwneud hyn eto, allen ni wneud rhywbeth yn wahanol?

Gallwch addasu'r gweithgareddau i ddiddordebau eich teulu a defnyddio unrhyw eitemau sydd wrth law, yn y cartref neu'r tu allan iddo.

Gallwch dynnu lluniau ffotograff neu ddarluniau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau - mae i fyny i chi!

Defnyddiwch y sylwadau i fyfyrio ar eich trafodaethau a meddyliau wrth wneud y gweithgaredd gyda'ch gilydd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl3

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Hydref	Rhif – adio a thynnu	Anifeiliaid dominos	Adio a thynnu rhifau gyda hyd at 3 digid	Datrys gwahanol broblemau a datblygu'r meddwl mathemategol a sgiliau rhesymu.
	Rhif – lluosï a rhannu	Pêl-droed pryfed	Defnyddio ffeithiau tablau lluosï i ddatrys problemau	
	Geometreg – nodweddion siâp	Patrwm Rangoli	Gwneud defnydd ehangach o nodweddion siâp, adnabod siapiau ar wahanol ogwydd, deall mwy am gymesuredd.	
	Mesur	Onglau sgwâr Plu eira	Adnabod onglau sgwâr. Llinellau cymesuredd mewn gwahanol siapiau.	Datblygu'r meddwl mathemategol.
		Mewn blwyddyn Antur yn y jyngl	Gwybod faint o ddiwrnodau sydd mewn mis a misoedd mewn blwyddyn. Adio a chymharu, adio a thynnu màs (g/kg).	
	Ystadegau	Sioe tân gwyllt	Datrys problem benodol drwy drefnu a dehongli data mewn tabl syml. Egluro dulliau a rhesymu.	
	Datrys problemau	Bocs goleuadau addurno Coeden Nadolig	Datrys problemau a gweithio'n systematig. Datblygu'r meddwl mathemategol, gweithio'n systematig a gwirio'r holl bosibiliadau.	

*Mae angen ei argraffu mewn lliw

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl3



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Gwanwyn	Rhif a gwerth lle	Bwystfil môr Groegaidd	Gwerth lle drwy gyflwyno neu ddefnyddio rhifau dros 1000.	Adio a thynnu'n defnyddio rhifau 4 digid.
	Rhif – lluosï a rhannu	Pos bariau siocled Lluosi San Ffolant	Defnyddio tablau lluosï 3 a 5 i ddatrys problemau, gan weithio'n systematig. Ad-alw a defnyddio tablau lluosï 3, 4 a 8.	
	Mesuriadau	Mesurydd parcio	Adio a thynnu arian mewn cyd-destun.	
		Ffeithiau anatomi dynol Wyneb cloc Rhufeinig	Mesur a chymharu hydoedd (m, cm, mm). Dweud ac ysgrifennu'r amser o gloc analog gan gynnwys defnyddio rhifau Rhufeinig rhwng I a XII.	Datrys gwahanol broblemau, gwirio'r holl bosibiliadau, cyflwyno data. Dehongli a chyflwyno data.
		Tasg amser teledu	Amcangyfrif a darllen yr amser yn fwyfwy cywir i'r funud agosaf; cofnodi a chymharu amser mewn eiliadau, munudau, oriau ac 'o'r gloch'; defnyddio geirfa fel am/pm, bore, prawn, ganol dydd a hanner nos.	
	Geometreg – nodweddion siâp	Pwysau ffrwythau Siapiau bocsys Prawf triongl	Amcangyfrif, mesur a chymharu màs. Adnabod siapiau 3D. Delweddu a disgrifio nodweddion siapiau 2D a defnyddio geirfa fathemategol i ddisgrifio safleoedd a gogwydd.	Mesur a chymharu hydoedd.

Trosolwg a chysylltiadau i'r Cwricwlwm Bl3

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Haf	Rhif – lluosï a rhannu	Cyflwyno'r Faner Pos tablau lluosï	Amcangyfrif, cyfrifo lluosrifau o 10 a datrys problemau Ad-alw a defnyddio ffeithiau lluosï ar gyfer y tabl hwn.	Datrys gwahanol broblemau a datblygu'r meddwl mathemategol a sgiliau rhesymu.
	Mesur	Trefnu trip Yn y filfeddygfa Blwyddyn o ddiodydd Rysâit cacennau sbwng	Adio a thynnu symiau o arian yn defnyddio £ a c mewn cyd-destunau ymarferol. Adio arian yn defnyddio £ a c. Mesur a chymharu màs a / neu gapasiti, datrys gwahanol broblemau a datblygu'r meddwl mathemategol. Mesur, cymharu, adio a thynnu màs (g/kg); cymharu mesurau gan gynnwys graddfeydd syml, e.e. dwywaith gymaint, cysylltu i luosi.	Ysbeidiau amser.
	Geometreg – nodweddion siâp	Pa feintiau allwch chi ddod o hyd iddynt Ystafelloedd – onglau sgwâr a hirsgwariau Her hanner siapiau	Mesur, cymharu, adio a thynnu maint / capasiti (l/ml). Mesur a chymharu, adio a thynnu hydoedd (m, cm, mm); adnabod onglau sgwâr. Dysgu mwy am siapiau; polygonau cymesur ac anghymesur.	Mesur perimedr siapiau syml.


*Mae angen ei argraffu mewn lliw

Anifeiliaid dominos



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Yn defnyddio 5 domino, allwch chi wneud siâp ci drwy adio'r dotiau i wneud 31?



Allwch chi wneud ci gyda'r nifer leiaf o ddotiau posib? I ba rif y mae o'n adio?

Allwch chi ddefnyddio dominos i ddylunio tŷ ar gyfer eich ci – i ba rif y mae o'n adio?


Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

 **National
Numeracy**
Getting on with numbers

Allwch chi ddylunio jiráff gyda 7 domino, adio'r dotiau a herio un o'ch teulu i'w wneud?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669



Cysylltiad Cwricwlwm:

Adio a thynnu rhifau gyda hyd at 3 digid, datrys gwahanol broblemau a datblygu'r meddwl mathemategol a sgiliau rhesymu.

Pêl-droed pryfed




**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Bwriedir cynnal y twrnameint pêl-droed 5 bob ochr 'bwystfilod bach' cyntaf erioed.

Mae 4 tîm – chwilog, pryfed cop, gwrachod lludw a nadroedd cantroed.

Mae gan chwilog 6 coes; pryfed cop 8 coes; gwrachod lludw 10 coes; nadroedd cantroed 40 coes.

1. Faint o goesau ar y cae chwarae pan fydd y chwilog yn erbyn y pryfed cop?
2. Faint o fŵts sydd ei angen ar y tîm gwrachod lludw?
3. Pa ddau dîm yn chwarae ei gilydd fyddai'n rhoi cyfanswm o 250 o goesau ar y cae?
4. Allwch chi feddwl am dîm pryfed arall – faint o goesau yn y tîm hwn?
5. Mae eich tîm yn cyrraedd y ffeinal ac yn chwarae'r gwrachod lludw. Faint o goesau ar y cae?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Defnyddio tablau lluosï i ddatrys problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Patrwm Rangoli



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Mae'r patrymau yma'n cael
eu defnyddio yn ystod
Diwali – mae'r lliwiau'n
dilyn patrwm caeth.**

**Allwch chi orffen hwn?
Ydy o'n gymesur?**

Allwch chi ddylunio un?
Mae Rangoli yn ddyluniad lliwgar
wedi'i wneud ar y llawr wrth ymyl
mynedfa tŷ i groesawu pobl.
Yn ystod Diwali, mae pobl
Hindŵaidd yn eu darlunio
i annog y dduwies Lakshmi i
ddod i'w cartrefi. Defnyddiwch
y darn wedi'i liwio i'ch helpu i
orffen y patrwm.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Gwneud defnydd ehangach o nodweddion siâp, adnabod siapiau ar wahanol ogwydd, deall mwy am gymesuredd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Onglau sgwâr



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**


**Mae gan y pentagon hwn
ddwy ongl sgwâr.**

Allwch chi ddod o hyd i'r ddwy?

Allwch chi dynnu llun
siapiau eraill gydag
onglau sgwâr?

Siâp 5 ochrog
– pentagon?
Siâp 6 ochrog
– hecsagon?

Unrhyw rai eraill?
Allwch chi eu henwi?



Her: Allwch chi ddod o hyd i onglau sgwâr yn eich cartref?

Gair o gyngor: Os nad ydych yn siŵr, defnyddiwch gornel darn o bapur i wirio'r ateb.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Adnabod onglau
sgwâr.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Weithiau rydym yn ffodus o gael eira yn lle glaw yn y gaeaf!

1. Plygwch ddarn o bapur sgwâr yn ei hanner ac yna yn ei hanner eto - i fod yn chwarteri.
2. Torrwch allan hanner rai siapiau o ymylon y papur. Torrwch wahanol siapiau gan ofalu peidio â thorri ar hyd y plygiad i gyd.
3. Agorwch y papur allan fel bod gennych ddarn fflat cyfan eto.
4. Pa wahanol siapiau allwch chi eu gweld ym mhatrwm eich pluen eira? Cyfrwch faint sydd gennych o bob siâp a welwch. Allwch chi ddarlunio eich patrwm?
5. Gwnewch hyn eto ond plygwch y papur yn wythfedau a thorri siapiau llai allan - sut y mae hyn yn newid eich patrwm wrth ei agor allan?



Her: Allwch chi wneud pluen eira gyda dim ond siâp pedair ochrog yn ei phatrwm? Faint o linellau o gymesuredd sydd gan eich pluen eira?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Llinellau cymesuredd mewn gwahanol siapiau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Mewn blwyddyn




**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Faint o fisoedd sydd mewn blwyddyn? Pa fisoedd yw'r rhai hiraf?

Allwch chi dynnu llinell amser blwyddyn gyda dyddiadau pwysig i'ch teulu neu ysgol?
Os oes angen gwyliau arnoch, faint o ddiwrnodau fydd hynny?

Dyma enghraifft o linell amser rhywun arall.



Gofynnwch i rywun hŷn yn eich teulu greu llinell amser eu blwyddyn gyda chi.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Gwybod faint o
ddiwrnodau sydd
mewn mis a misoedd
mewn blwyddyn.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Antur yn y jyngl



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Dychmygwch eich bod wedi mynd ar antur i'r jyngl.

Rydych yn dod at afon. Rydych chi a'ch ffrindiau'n nofio ar draws ond eisiau osgoi gwlychu eich pethau. Rydych yn creu lein-dynnu i gael pethau dros yr afon ond dim ond 5 cilogram o bwysau all ei gymryd.



Dewiswch ba fwyd neu ddiod –
dim mwy na 5kg –
allwch chi ei roi mewn bag.

Chwiliwch o gwmpas y tŷ ac yn y cypyrddau
i ddewis beth i fynd gyda chi.

Beth fyddai aelodau eraill o'ch teulu'n
mynd gyda nhw?

Gair o gyngor: 5kg = 5000g



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Adio a chymharu, adio a thynnu màs (g/kg); datblygu'r meddwl mathemategol a gallu datrys gwahanol broblemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Sioe tân gwyllt



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**


**Mae Siwan a Geeta eisiau gollwng tân gwyllt.
Mae ganddyn nhw dri ac yn cytuno ar wahanol ffyrdd i'w rhannu.**

Mae ganddyn nhw ffynnon (F), sbarclyr (S) a roced (R).
Maen nhw wedi cwblhau'r tabl hwn i'w helpu i ddewis:

Siwan	R							
Geeta	S F							

Pe bai gan eich teulu 6 o wahanol fathau o dân gwyllt, allwch chi gwblhau tabl i weld sut y gallwch rannu'r tân gwyllt? Dewiswch 3 math arall o dân gwyllt i'w cynnwys.

Her: Dod o hyd i'r holl bosibiliadau.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problem benodol drwy drefnu a dehongli data mewn tabl syml. Egluro dulliau a rhesymu.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Bocs goleuadau addurno



Pecyn
Mathemateg
Teulu


Mae'r siop eisiau dylunio bocs newydd ar gyfer 36 o oleuadau Nadolig - bocs fflat fydd o. Dim ond 4 lliw o oleuadau fydd ynddo - coch, aur, gwyrdd a glas.

Allwch chi ddylunio bocs fflat a threfnu'r goleuadau fel nad oes yr un golau o'r un lliw wrth ymyl ei gilydd mewn unrhyw gyfeiriad?

Faint o wahanol ddyluniadau allwch chi ddod o hyd iddynt?

Allwch chi wneud hyn ar gyfer 24 o oleuadau? Ydy o'n haws neu'n anoddach?

Gair o gyngor: Meddyliwch am sut i drefnu'r goleuadau yn y bocs. Gallech eu trefnu mewn 6 rhes o 6.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datrys problemau a gweithio'n systematig.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Coeden Nadolig!



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Rwdolff y Carw
Trwyngoch wedi rhoi
5 seren ar goeden
Nadolig.

Mae wedi lliwio pob
un yn goch, melyn
neu'n las.




Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

 National
Numeracy
Getting on with numbers

Tynnwch lun mwy o goed Nadolig gyda 5 seren yn yr un llefydd. Lliwiwch y sêr, faint o wahanol gyfuniadau allai Rwdolff eu gwneud?



Allwch chi wneud pos fel hyn i'ch ffrindiau? Bydd angen i chi wybod beth yw'r ateb!

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datblygu'r meddwl
mathemategol,
gweithio'n systematig
a gwirio'r holl
bosibiliadau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Bwystfil môr Groegaidd




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Roedd chwedlau Gwlad Groeg yn
sôn am fwystfilod eithaf dychrynlyd.

Yn y môr roedd bwystfil yn byw.
Roedd ganddo 1 corff a 10 gwddw
ar y corff. Roedd gan bob gwddw
10 pen a phob pen gyda 10 tafod.

Faint o dafodau oedd
gan y bwystfil?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

 **National
Numeracy**
Getting on with numbers

Allwch chi ddisgrifio bwystfil dychrynlyd gyda mwy na 1500 o dafodau? Meddyliwch am faint o bennau a gyddfau fyddai ganddo.

Her: Dylunio bwystfil gyda dros 2000 o lygaid!

Gair o gyngor: Ceisiwch weithio ar yn ôl; mae gan bob pen 10 tafod....



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Gwerth lle drwy gyflwyno neu ddefnyddio rhifau dros 1000.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Pos bariau siocled



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Beth yw eich hoff far o siocled neu fferins?

Gwerthir Siocled Llaeth mewn paced o 3.
Gwerthir Taffi Ffrwyth mewn paced o 5.

Mewn parti, mae angen cymysgedd o 62 o fariau ar gyfer gwobrau. Faint o bacedi o Siocled Llaeth a faint o bacedi o Daffi Ffrwyth sy'n rhaid eu prynu?

Her: Meddyliwch am gymaint o wahanol ffyrdd â phosib.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Defnyddio tablau lluosu 3 a 5 i ddatrys problemau, gan weithio'n systematig.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669




Dydd San Ffolant



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae rhai pobl yn anfon cardiau ar Ddydd San Ffolant. Mae ganddynt galonnau arnynt yn aml.

Mae'r calonnau hyn wedi cael eu torri – allwch chi eu trwsio drwy eu torri allan a pharu'r haneri fel bod gan bob hanner yr un ateb.




Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Ar ôl eu paru, allwch wneud rhai eich hun yn defnyddio tablau llusgi 3, 4 ac 8.

Yna torrwch nhw allan a'u troi wyneb i lawr. Yn eich tro, ceisiwch ddod o hyd i bâr o rai'r un fath.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Ad-alw a defnyddio
tablau llusgi 3, 4 a 8.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Mesurydd parcio



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Oes gennych chi fesuryddion parcio yn eich tref?

**Yr arian y gallwch eu defnyddio i dalu am barcio
yw 5c, 10c, 20c, 50c ac £1.**

**Mae'r mesurydd yn codi 30c yr awr am barcio.
Nid yw'n rhoi newid.**

Mewn faint o wahanol ffyrdd y gallwch dalu am 1 awr?
A dwy awr?

Her: A fyddai eich atebion yn wahanol pe bai'r
mesurydd yn rhoi newid?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Adio a thynnu arian
mewn cyd-destun,
datrys gwahanol
broblemau, gwirio'r
holl bosibiliadau,
cyflwyno data.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Ffeithiau anatomi dynol



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**


Ffeithiau am fodau dynol:

- Mae hyd breichiau ar led (o flaen bys i flaen bys) tua'r un hyd â thaldra person.
- Mae tua 8 hyd pen yn cyfateb i daldra person.

Allwch chi wirio hyn arnoch chi eich hun a'ch teulu?

Ydy o'r un fath i bawb?

Her: Os oes gennych dedis, dolis neu ffigurau antur – ydyn nhw wedi eu gwneud i fod yr un fath â siapiau dynol?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur a chymharu hydroedd (m, cm, mm); dehongli a chyflwyno data.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Wyneb cloc Rhufeinig



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae gan wynebau clociau rifau Rhufeinig yn aml. Dyma ddwy enghraifft o glociau - mae gan un rifau Rhufeinig ac un ddim.



Allwch chi dynnu llun wyneb cloc a rhoi'r holl rifau Rhufeinig yn y llefydd cywir? Gwnewch wyneb y cloc i ddangos amser gwahanol i'r un uchod. Faint o'r gloch ydy hi ar eich cloc? Chwiliwch am gloc gyda rhifau Rhufeinig a thynnu ei lun yma neu gynnwys ffotograff ohono.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Dweud ac ysgrifennu'r amser o gloc analog, gan gynnwys defnyddio rhifau Rhufeinig rhwng I a XII.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Tasg amser teledu



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Oes gennych chi hoff raglenni teledu?
Pa mor hir ydyn nhw? Dychmygwch
y gallwch gael y teledu i chi eich hun
am ddiwrnod cyfan – o godi yn y bore
i fynd i'ch gwely.**

Ysgrifennwch amserlen o beth i'w wylio.

Fydddech chi'n gadael i un neu ddau
o'ch teulu gael un rhaglen yr un?

Ble fyddai eu dewisiadau'n ffitio
i'ch amserlen?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Amcangyfrif a darllen yr amser yn fwyfwy cywir i'r funud agosaf; cofnodi a chymharu amser mewn eiliadau, munudau, oriau ac fel 'o'r gloch'; defnyddio geirfa fel am/pm, bore, prynhawn, ganol dydd a hanner nos.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Pwysau ffrwythau



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Dowch o hyd i afal (neu daten neu debyg),
ei deimlo yn eich llaw ac amcangyfrif
ei bwysau. Gofynnwch i'ch teulu am eu
hamcan-bwysau nhw.**

Rŵan pwyswch yr afal – pa mor agos
oeddech chi? Pwy oedd agosaf?

Faint o afalau fyddai'n pwyso cilogram?

Pa ffrwythau neu lysiau allwch chi
ddod o hyd iddynt sy'n pwyso'r un
fath neu'n debyg i afal? Daliwch nhw
yn eich llaw i gymharu efo'r afal.

Pa un yw'r trymaff y gallwch ddod o hyd iddo? Ydy
o hefyd yr un mwyaf?

Allwch chi amcangyfrif pwysau wy?
Pwyswch yr wy'n ofalus – oeddech chi'n synnu?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Amcangyfrif, mesur
a chymharu màs.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Siapiau bocsys



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Mae anrhegion neu fwyd yn aml yn dod mewn bocsys. Chwiliwch o gwmpas y tŷ am focsys a gweld faint o wahanol siapiau y gallwch ddod o hyd iddynt.


Pa siapiau ydy'r rhan fwyaf o focsys? Allwch chi ddod o hyd i giwbiau? Mesurwch un. Allwch chi ddod o hyd i siapiau anghyffredin?

Beth yw'r bocs hiraf allwch chi ddod o hyd iddo?
Beth sydd ynddo fo?

Beth yw'r bocs lleiaf?
Beth allech chi ei gadw ynddo fo?

Oes gennych chi focs gwag y gallech ei agor i weld beth yw ei siâp?

Allwch chi dynnu llun ohono?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur a chymharu hydroedd; adnabod siapiau 3D.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Prawf triongl



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Faint o drionglau sydd
yn y llun?



Gair o gyngor: Mae'n haws dechrau
drwy gyfri'r trionglau lleiaf.

Her: Allwch chi dynnu llun pos
hirsghar i'ch teulu ei gyfrif?

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Delweddu a disgrifio
nodweddion siapiau
2D a defnyddio
geirfa fathemategol i
ddisgrifio safleoedd a
gogwydd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Cyflwyno'r Faner



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

Pan fydd Cyflwyno'r Faner yn digwydd yn Llundain, mae'r gwarchodlu i gyd yn ymarfer am hir bod mewn rhesi syth o flaen y Brenin.

Dyma lun o ddim ond un gatrawd. Allwch chi amcangyfrif faint o filwyr sydd yma?



Pe byddech chi'n gadfridog, sut fyddech chi'n trefnu 300 o filwyr? Fyddai eich teulu'n gwneud yr un peth? Mae hefyd angen hyfforddi ceffylau; mewn faint o linellau allai 200 o geffylau sefyll?

Her: Dangos sut y gallai 500 o gerddorion gael eu trefnu.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Amcangyfrif, cyfrifo
lluosrifau o 10 a datrys
problemau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**National
Numeracy**
Getting on with numbers

Pos tablau lluosï



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pa dabl lluosï yw hwn? Mae pob llythyren yn cynrychioli digid.

$$F \times C = C$$

$$K \times C = G$$

$$D \times C = FK$$

$$C \times C = FJ$$

$$H \times C = KE$$

$$J \times C = KC$$

$$B \times C = KG$$

$$G \times C = DK$$

$$A \times C = DJ$$

$$FE \times C = CE$$

$$F \times C = C$$

Allwch chi greu tabl lluosï arall?

$$B \times C = ?$$

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Pa dabl lluosï yw hwn?

Mae pob llythyren yn cynrychioli digid.

$F \times C = C$

$K \times C = G$

$FE \times C =$

Gair o gyngor: Mae'r tabl lluosï mewn trefn felly mae'n dechrau gyda 1 x ?

$J \times C = KC$

$G \times$

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Ad-alw a defnyddio ffeithiau lluosï ar gyfer y tabl hwn, datrys gwahanol broblemau, datblygu'r meddwl mathemategol a sgiliau rhesymu.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Trefnu trip




**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Mae gennych £100 i'w wario ar ddiwrnod allan.
I ble fydddech chi'n mynd? Fydddech chi'n mynd
ag aelodau o'ch teulu? Faint fyddai o'n gostio?
Allwch chi fynd i weld mwy nag un lle?**

Gwnewch gynllun diwrnod o lefydd i fynd a faint fyddai'n ei gostio.

Dyma enghraifft o ddiwrnod allan, ond gallwch fynd i unrhyw le! Nid oes raid i chi ddefnyddio eich arian i gyd.



Lle	Pwy	Cost	Cyfanswm
Castell	2 oedolyn a 2 blentyn	Oedolion £8.00 yr un P lant £5.00 yr un	£26.00
Traeth	1 oedolyn a 2 blentyn	Dim ond hufen iâ £2.00 yr un	£6.00
Sŵ	2 oedolyn a 2 blentyn	Oedolion £15.00 yr un Plant £6.00 yr un	£42.00
Sglefrio iâ	1 oedolyn a 4 plentyn	Oedolyn £10 Plant £4 yr un	£26.00

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Adio a thynnu arian
yn defnyddio £ a c
mewn cyd-destunau
ymarferol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Yn y filfeddygfa



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Pero'n gi mawr ac mae angen brechiadau arno, triniaeth chwain, triniaeth llyngyr ac yswiriant.

Faint fydd yr ymweliad i'r filfeddygfa'n ei gostio?



Yn y filfeddygfa	Micro-sglodyn	Brechiad	Triniaeth chwain	Triniaeth llyngyr	Sbaddu	Yswiriant
Ci mawr	£35.00	£26.00	£7.60	£14.00	£400.00	£120.00
Ci bach	£35.00	£15.00	£7.60	£7.00	£150.00	£120.00



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Mae ei ffrind Mot yn gi bach – mae angen popeth arno. Fydd ei ymweliad yn costio mwy nag un Pero?



Her: Beth arall y mae’n rhaid i berchnogion cŵn dalu amdano? Allwch chi wneud rhestr o beth sydd ei angen ar gi ac amcangyfrif y gost (e.e. tennyn, bowlen, teganau).

Wedi’i addasu o ‘Real life problems for 7-11 year olds’ gan y Dogs Trust.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Adio arian yn defnyddio £; dehongli gwybodaeth a gyflwynir mewn tabl.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Blwyddyn o ddiodydd



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**

**Dewiswch ddiod yr ydych chi a'ch teulu'n
ei yfed yn aml, e.e. te, coffi, sudd oren.**

Faint ydych chi gyd yn ei yfed
mewn diwrnod?

Allwch chi amcangyfrif pa mor aml
sydd angen prynu potel / paced /
jar newydd?

Allwch chi amcangyfrif faint y mae
eich teulu'n ei wario ar y diod yma
mewn blwyddyn?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur a chymharu
màs a / neu gapasiti,
datrys gwahanol
broblemau a
datblygu'r meddwl
mathemategol.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Rysait cacennau sbwng



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dyma rysait ar gyfer 12 o gacennau sbwng:

Cynhwysion

- Cacennau sbwng
- 110g/4oz menyn neu farjarîn
- 110g/4oz siwgr caster
- 2 wy wedi eu curo'n ysgafn
- 1 llond llwy de rhin fanila
- 110g/4oz o flawd codi

Hufen menyn

- 140g/5oz menyn wedi meddalu
- 280g/10oz o siwgr eisin
- 1-2 llond llwy fwrdd o laeth
- Ychydig ddiferion o liw bwyd

Beth am roi cynnig ar y rysait!

Siaradwch am fyrfoddau – beth y mae 'g' yn ei feddwl? Faint o gramau mewn cilogram? Y gwahaniaeth rhwng llond llwy de a llond llwy fwrdd? A fyddai'n gwneud gwahaniaeth pe byddent yn eu cymysgu? Mae'r rysait yma'n gwneud 12 cacen – faint fyddai pob aelod o'ch teulu'n ei gael? Pe byddech eisiau cael parti, beth fyddai'r cynhwysion ar gyfer 24 cacen?

Her: Faint o gacennau allech ei wneud gyda dim ond 55g/22oz o fenyn?

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur, cymharu, adio a thynnu màs (g/kg); cymharu mesurau gan gynnwys graddfeydd syml.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Pa feintiau allwch chi ddod o hyd iddynt?



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Allwch chi ddod o hyd i bethau o gwmpas y tŷ sy'n cael eu mesur mewn mililitrau, centilitrau a litrau?

- Pa eitem sydd â'r capasiti lleiaf?
- A'r mwyaf?
- Allwch chi ddewis 5 peth i'w rhoi mewn trefn capasiti – o'r lleiaf i'r mwyaf?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur, cymharu,
adio a thynnu
maint / capasiti
(l, ml)

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Ystafelloedd – onglau sgwâr a hirsgwariau




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pan fydd asiant tai'n gwerthu tai, maen nhw'n dangos / hysbysebu maint pob ystafell. Mesurwch eich llofft i ddod o hyd i'r perimedr.

Mae ystafelloedd yn aml yn siâp hirsgwar gyda 4 ongl sgwâr.

- Oes gan eich cartref chi ystafelloedd sydd ddim yn hirsgwar?
- Sut allech chi eu mesur? Faint o onglau sgwâr sydd ganddynt?
- Allech chi ddylunio ystafell heb i bob ongl fod yn sgwâr?



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Mesur a chymharu, adio a thynnu hydoedd (m, cm, mm); mesur perimedr siapiau syml, dod o hyd i onglau sgwâr.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Her hanner siapiau



**Pecyn
Mathemateg
Teulu**


Dyma hanner siâp:

Tynnwch lun rai o'r gwahanol siapiau y gallai'r siâp gwreiddiol fod wedi bod.

Marcwch unrhyw linell gymesuredd ar eich siâp cyfan.

Dyluniwch hanner siâp arall i rywun arall ei orffen - peidiwch ei wneud yn rhy gymhleth!

Rhowch chi gynnig arni'n gyntaf!



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Dysgu mwy am siapiau; polygonau cymesur ac anghymesur.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Atebion i Weithgareddau Bl.3



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pêl-droed pryfed

- Chwilod v pryfed cop 70
- Gwrachod lludw 50
- Gwrachod lludw v nadroedd cantroed

Coeden Nadolig

21 o bosibiliadau

Anifeiliaid dominos

e.e. dominos gyda $6 + 7 + 10 + 4 + 4$
o ddotiau ar bob un (nifer o atebion)

Sioe tân gwyllt

8 o bosibiliadau



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

N National
Numeracy
Getting on with numbers

Atebion gweithgareddau'r Gwanwyn Bl.3



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Bwystfil môr Groegaidd

- Mae 10 tafod i bob pen
- Mae 10 pen i bob gwddw
- $10 \text{ tafod} \times 10 \text{ pen} = 100 \text{ tafod i bob gwddw}$
- Mae 10 gwddw i bob corff
- $100 \text{ tafod} \times 10 \text{ gwddw} = 1000 \text{ tafod i bob corff}$
- Torrwch un gwddf i ffwrdd: $1000 - 100 = 900$ o dafodau ar ôl
- Torrwch un pen i ffwrdd: $900 - 10 = 890$ o dafodau ar ôl
- Tynnwch un tafod allan: $890 - 1 = 889$ o dafodau ar ôl
- Mae 889 o dafodau ar ôl ar yr anghenfil.

Pos bariau siocled

- 3 ffordd
- 4 paced o Siocled Llaeth
a 10 paced o Daffi Ffrwyth
- 9 Siocled Llaeth
a 7 Taffi Ffrwyth
- 14 Siocled Llaeth
a 4 Taffi Ffrwyth

Prawf triongl

Mae yma 20 triongl

Mesurydd parcio

6 o bosibiliadau am dâl
o 30c ac 18 o bosibiliadau
am dâl o 60c.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Atebion gweithgareddau'r Haf Bl.3



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pos tablau lluosï

Mae'n cynrychioli tabl lluosï 4

Cacennau sbwng

- g = gram
- 1000g = 1kg
- Mae pacedi fel arfer yn 500g neu 1kg
- Tsp = llond llwy de; tbsp = llond llwy fwrdd
- 24 cacen = 220g/8oz menyng, siwgr a blawd; 4 wy; 2 llond llwy de o fanila
- Gallai 55g/2oz o fenyn ond gwneud 6 cacen

Yn y filfeddygfa

- £167.60
- £334.60
- £30.40

Cyflwyno'r Faner

- Amcangyfrif rhwng 200 a 500 yn rhesymol
- 15 rhes
- e.e. 10 rhes o 20
- 8 rhes o 25, ayyb
- 50 o gerddorion



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

NN National
Numeracy
Getting on with numbers